Taflen Ffeithiau

Mae'n talu i **gefnogi cynhalwyr** eich gweithlu

Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn dangos sut y gall busnesau gymryd camau syml i gefnogi eu gweithwyr cyflogedig sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan sicrhau bod y busnes yn parhau i fod yn gynhyrchiol ac yn elwa ar fod yn gyflogwr gofalgar ar yr un pryd.

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Carers UK wedi nodi bod dros 3,000,000 o gynhalwyr yn y DU yn gweithio. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl bod 1 o bob saith 7 o'ch gweithlu (Ffynhonell: Employers for Carers) yn ceisio ymdopi â gofynion swydd a gofynion bod yn gynhaliwr di-dâl.

Diffinio gofalwr:

"Mae cynhaliwr yn berson o unrhyw oed sy'n darparu cymorth di-dâl i aelod o'r teulu neu ffrind, y byddai ei iechyd neu les yn gallu dioddef heb y cymorth hwnnw. Gall hyn olygu gofalu am berthynas, partner, plentyn neu ffrind sy'n sâl, yn fregus, yn anabl neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau."
Ffynhonnell: Gofal Croesffyrdd Cymru.

O weithiwr i gynhaliwr:

I gychwyn, mae'n bwysig deall bod rôl cynhaliwr, yn aml iawn, yn rhywbeth nad yw'n cael ei gynllunio a gall effeithio ar unrhyw aelod staff ar unrhyw adeg – felly byddwch barod. Cofiwch fod 3 o bob 5 o bobl yn gynhalwyr ar un adeg o'u bywydau.

Cofiwch hefyd pan fydd yr aelod staff yn dod yn gynhaliwr byddwch yn sylwi:

- ei bod yn anodd darogan pryd fydd rhywun angen gofal
- gall lefel y gofal amrywio ac mae'n amrywio
- mae argyfyngau'n digwydd ac ni ellir cynllunio ar eu cyfer o flaen llaw
- bod amseroedd apwyntiadau'r gwasanaethau meddygol a chymdeithasol yn gaeth iawn
- bydd angen gofal ar fyr rybudd.

Gall cyflogwyr helpu i gefnogi aelodau staff sy'n ofalwyr trwy fabwysiadu dulliau gweithio hyblyg. Drwy wneud hynny, mae'r busnes yn cydnabod yr angen i fod yn gefnogol, a hefyd yn sicrhau y gall staff barhau i wneud eu swydd yn effeithiol wrth gyflawni eu dyletswyddau gofalu yr un pryd.

Y manteision i fusnes:

- tarfu llai ar gynhyrchiant y busnes
- cynyddu teyrngarwch staff
- lleihau straen ac absenoldeb
- gwella'r berthynas rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr
- lleihau trosiant staff
- cadw sgiliau
- hybu enw da'r busnes fel cyflogwr arferion gorau.

Cymorth ymarferol:

Gall eich busnes gynnig cymorth ymarferol hynod werthfawr trwy nifer o ddulliau syml ac effeithiol.
Maent yn cynnwys:

- Mabwysiadu strategaeth gweithio hyblyg ac o bell Datblygu cynllun seibiant gyrfa
- Darpariaeth ar gyfer caniatáu absenoldeb di-dâl
- Gweithdrefnau ar waith ar gyfer absenoldeb argyfwng
- Sicrhau bod ffôn ar gael
- Creu diwylliant agored lle gall staff siarad a chael cefnogaeth.

Nid yw hon yn rhestr bendant ac mae'n werth ystyried beth y gall eich busnes ei wneud o gofio eich gofynion gweithredol.

Camau Nesaf

- Os yw eich busnes mewn ardal Gydgyfeirio ewch i www.cymraeg.agilenation.co.uk i weld sut y gallai'r rhaglen Esblygu eich helpu chi
- Dysgu mwy am gynhalwyr yn www.carersuk.org, www.employersforcarers.org, www.carersweek.org a www.crossroads.org.uk
- Cysylltu â Kathy Proudfoot, Swyddog Cynhalwyr a Chyflogaeth, Gofal Croesffyrdd Cymru , Kathy.proudfoot@crossroads.org.uk
- Siarad â'ch staff am ofalu
- Datblygu polisi cyflogwyr ar gynhalwyr.

GOFAL CROES FFYRDD CROSS ROADS CARE

Mae prosiect Cenedl Hyblyg yn darparu cymorth a datblygiad yn y gweithle i fenywod a busnesau yn ardal gydgyfeirio Cymru. I gael gwybod mwy, ewch i **www.agilenation.co.uk**

Chwarae Teg®
Agile Nation

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund